



CREU CV A CHEISIADAU AM SWYDDI A HYFFORDDIANT >

Cynllun y sesiwn



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

PARATOI AR GYFERGWALTH

CIPOLWGW

Pwrpas y sesiwn yma yw cael y dysgwyr i adnabod eu sgiliau a'u doniau eu hunain, a'u haddysgu am sut i ddangos y doniau hyn mewn fformat CV. Bydd yn dangos iddyn nhw pa mor bwerus y gall CV gwyh fod wrth wneud cais am swyddi neu gyfleoedd hyfforddi. Bydd angen i'r dysgwyr fod wedi cwblhau'r sesiwn 'Creu Dyfodol Llwyddiannus' cyn y sesiwn yma. Cofiwch: Mae'n bosibl addasu'r cynllun yma er mwyn ei ymestyn dros nifer o ddiwrnodau, gan ddibynnu ar faint o amser sydd gennych chi.



CYFLEOEDD LLYTHRENNEDD, IAITH A

RHIFEDD

- ✓ Defnyddio strategaethau prawf-ddarllen i weld gwallau gramadeg, sillafu ac atalnodi
- ✓ Adnabod gwahanol ffyrdd o lenwi ffurflen gais
- ✓ Darllen a deall ymadroddion a geiriau sy'n ymddangos yn aml ar ffurflenni cais



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cynllunio Gyrfa – Deiliant Dysgu: Deall sut mae gwneud cais am swyddi neu gyfleoedd hyfforddi

DEILLIANNAU DYSGU

- ✓ Gwybod pa sgiliau, profiadau ac addysg berthnasol i'w rhoi ar CV
- ✓ Gwybod pa wybodaeth hanfodol i'w rhoi ar CV, a gwybod beth ddylid ei roi ym mhob adran
- ✓ Creu CV mewn fformat priodol i geisio cael swydd
- ✓ Llenwi ffurflen gais syml ar gyfer swydd/cwrs sy'n berthnasol i'w diddordebau

GWEITHGAREDDAU

GWEITHGAREDDAU	AMSER	TUDALEN
<u>Torri'r Garw: Beth yw CV?</u>	15 munud	<u>03</u>
<u>Sgiliau trosglwyddadwy</u>	15 munud	<u>04</u>
<u>Datganiad personol</u>	30 munud	<u>05</u>
<u>'Pethau i'w gwneud a'u hosgoi gyda CV'</u>	20 munud	<u>07</u>
<u>Ysgrifennu CV ar gyfer eich swydd ddel-frydol</u>	40 munud	<u>08</u>
<u>LinkedIn</u>	30 munud	<u>10</u>
<u>Cyflwyno ffurflenni cais</u>	20 munud	<u>11</u>
<u>Llenwi ffurflen gais</u>	60 munud	<u>12</u>
<u>Dirwyn i Ben</u>	5 munud	<u>14</u>



TORRI'R GARW: BETH YW CV? ➤

Bydd y gweithgaredd yma i dorri'r garw yn helpu'r bobl ifanc i ddeall beth yw CV. Byddan nhw'n nodi pa wybodaeth ddylai fod ar eu CV, ac yn trafod fel grŵp.



AMSER

15 munud



DEUNYDDIAU

Gan ddibynnu ar beth sydd ar gael i chi, gallwch ddefnyddio naill ai:

- ✓ Papur siart troi, bwrdd gwyn a beiro neu adnodd bwrdd gwyn o bell
- ✓ Google docs neu ddogfen debyg ar-lein, mynediad i'r rhyngwyd



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Nodi dulliau gwahanol o wneud cais am swyddi

CAMAU'R GWEITHGAREDD ➤

1. Yn gyntaf, gofynnwch i'r bobl ifanc a ydyn nhw'n gwybod beth yw CV. Eglurwch fod CV yn sefyll am 'curriculum vitae', sy'n golygu 'cwrs bywyd' yn Lladin, a'i fod yn grynodeb ysgrifenedig o'ch holl fywyd gwaith. Gofynnwch i'r dosbarth drafod pa wybodaeth y gall CV ei rhoi i gyflogwyr am y person sy'n gwneud cais am y swydd.
2. Yn ystod y drafodaeth, cofiwch egluro i'r dysgwyr bod CV yn rhoi crynodeb i gyflogwyr o'u cymwystrau, eu sgiliau a'u profiad gwaith. Bydd hyn yn helpu cyflogwyr i benderfynu a fydden nhw'n addas ar gyfer y swydd. Mae'n allweddol cyfleu bod CV yn rhyw fath o argraff gyntaf o'r person sy'n gwneud cais, a dyna pam ei fod mor bwysig.
3. Rhannwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau bach, a gofyn iddyn nhw restru pa wybodaeth, yn eu barn nhw, fyddai cyflogwyr yn dymuno ei chael am berson sy'n gwneud cais am swydd. Cofnodwch eu hawgrymiadau ar bapur siart troi, bwrdd gwyn neu Google Doc neu lwyfan rhannu tebyg, os ydych chi'n cyflwyno'r sesiwn ar-lein. Gofynnwch iddyn nhw nodi pa wybodaeth nad oes angen i gyflogwyr wybod amdani, ac felly y dylid ei hepgor o'r CV.



Prince's Trust

START
SOMETHING

SGILIAU TROSGLWYDDADWY

Bydd y dysgwyr yn nodi'r sgiliau maen nhw wedi'u dangos yn eu bywyd yn yr ysgol ac yn y cartref. Byddan nhw hefyd yn dysgu sut i gael gwybod pa sgiliau allweddol sydd eu hangen ar gyfer swydd.



AMSER

15 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Papur
- ✓ Pinnau ffelt
- ✓ Cyfrifiadur



TAFLEN WAITH

- ✓ Gweithgaredd
1: Sgiliau trosglwyddadwy

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Cofiwch bwysleisio wrth y dysgwyr er nad ydyn nhw wedi cael unrhyw brofiad gwaith neu gymwysterau ffurfiol eto o bosibl, byddan nhw'n dal wedi dangos amrywiol sgiliau yn eu bywyd yn yr ysgol ac yn y cartref a fydd yn creu argraff ar gyflogwyr.
2. Trafodwch gyda nhw sut mae amrywiol weithgareddau, fel bod yn rhan o glwb chwaraeon, gwarchod aelodau iau'r teulu a gwneud gwaith ysgol, yn gallu dangos sgiliau y gall cyflogwyr fod yn chwilio amdany'n nhw.
3. Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau, a gofyn i bawb roi enghraifft o sut maen nhw'n gallu dangos sgiliau yn eu bywyd ysgol, bywyd gartref a bywyd gwaith. Bydden nhw'n gallu rhoi enghreifftiau o unrhyw beth maen nhw'n ei wneud a allai fynd ar CV yn eu barn nhw. Gofynnwch i ddeholiad ohonyn nhw rannu eu henghreifftiau â'r grŵp.
4. Ar lefel uwch, heriwch y dysgwyr i feddwl am sefyllfaoedd penodol lle maen nhw'n gallu dangos sgiliau – er enghraifft, lle bu'n rhaid iddyn nhw feddwl yn chwim wrth wirfoddoli i helpu mewn digwyddiad.
5. Esboniwch i'r dysgwyr eich bod yn mynd i ddangos hysbysebion swydd iddyn nhw, i weld pa sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol rolau. Rhannwch y daflen waith 'Sgiliau trosglwyddadwy', a gofyn i'r dysgwyr ddarllen y disgrifiadau swydd a dweud pa sgiliau y byddai eu hangen arnyn nhw i fod yn ymgeisydd llwyddiannus. Gofynnwch iddyn nhw gofnodi'r sgiliau yn y blwch o dan bob disgrifiad swydd.



Prince's Trust

START
SOMETHING

DATGANIAD PERSONOL

Drwy'r gweithgaredd yma, bydd y dysgwyr yn dod i ddeall beth yw datganiad personol, ac yn cael eu hannog i ysgrifennu un eu hunain.



AMSER

30 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Os ydych chi'n gweithio ar-lein, nodweddion fel ystafelloedd trafod ar-lein neu lwyfan rhannu dogfennau



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Nodi dulliau gwahanol o wneud cais am swyddi

CAMAU'R GWEITHGAREDD

Os ydych chi'n meddwl bod y grŵp yn gweithio ar lefel uwch, gallwch ofyn iddyn nhw ysgrifennu datganiad personol i fynd gyda'u CV.

1. Esboniwch i'r dysgwyr beth yw datganiad personol, a sut mae'n arbennig o ddefnyddiol i unigolion sydd ar ddechrau'u gyrfa ac felly heb gael llawer o brofiad ymarferol eto. Esboniwch iddyn nhw y gall datganiad personol da, ynghyd â CV gwych, wneud iddyn nhw sefyll allan.
2. Dywedwch wrth y dysgwyr mai dim ond tair i bedair brawddeg fer yw datganiad personol, sy'n disgrifio eu sgiliau a'u nodweddion. Mae'n ymhelaethu ar rai o'r pwyntiau maen nhw wedi'u gwneud yn eu CV, a dylen nhw ddefnyddio geiriau fel 'rydw i' neu 'fy' i roi naws fwy cynnes a chyfeillgar. Dewiswch ychydig o ddatganiadau personol o'r enghreifftiau yn y ddolen isod, a'u darllen yn uchel i'r dysgwyr:
www.reed.co.uk/career-advice/personal-statement-examples/
www.prospects.ac.uk/careers-advice/cvs-and-cover-letters/writing-a-personal-statement-for-your-cv

Dywedwch y bydd angen iddyn nhw ddweud beth yw eu sgiliau eu hunain er mwyn ysgrifennu datganiad personol da. Gallwch roi ychydig o enghreifftiau iddyn nhw o sgiliau maen nhw o bosibl wedi'u datblygu drwy eu diddordebau, eu hastudiaethau, eu gwaith a'u profiadau: datrys problemau, y gallu i addasu, gwaith tîm, cyflwyno.

3. I sbarduno syniadau, naill ai mewn parau neu fel grŵp, gofynnwch iddyn nhw enwi un neu fwy o nodweddion cadarnhaol ei gilydd – er enghraifft, "Mae Stephen yn hyderus iawn, ac yn wych am siarad â grŵp mawr o bobl".
4. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am eu prif gryfderau a sgiliau, ac wedyn llunio eu datganiad personol eu hunain. Gallwch rannu rhagor o enghreifftiau o ddatganiadau personol ar y dudalen nesaf, er mwyn i ddysgwyr allu gweld a yw eu datganiad personol yn cyd-fynd â'r hyn mae cyflogwyr yn ei ddisgwyl.



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

ENGHRAIFFT 1

Unigolyn llawn cymhelliant sy'n gweithio'n galed, sydd wedi gorffen ei arholiadau Safon Uwch yn ddiweddar, ac wedi cael graddau rhagorol mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth. Rydw i'n chwilio am brentisiaeth yn y diwydiant peirianeg i adeiladu ar ddiddordeb brwd mewn gwyddoniaeth, a dechrau ar yrfa fel peiriannydd cynnal a chadw. Fy nod yn y pen draw yw bod yn beiriannydd cynnal a chadw neu drydanol profiadol sydd wedi cymhwyso'n llawn, gyda dyhead yn y tymor hwy i symud ymlaen i reoli prosiectau.

ENGHRAIFFT 2

Unigolyn sy'n gweithio'n galed, sy'n eithriadol o dda am ddatrys problemau ac sydd ag ysbryd tîm cadarn. Rydw i wedi cwblhau wyth gradd TGAU (graddau 7-5) yn ddiweddar, ac wedi cael graddau rhagorol mewn Mathemateg. Rydw i'n chwilio am brentisiaeth yn y diwydiant digidol i adeiladu ar ddiddordeb brwd yn y cyfryngau ac mewn technolegau, er mwyn dechrau ar yrfa ym maes marchnata digidol.



'PETHAU I'W GWNEUD A'U HOSGOI GYDA CV' >

Bydd y dysgwyr yn edrych ar enghreifftiau o CVs gwael, er mwyn deall beth i'w wneud a beth i'w osgoi wrth ysgrifennu CV.



AMSER

20 munud



DEUNYDDIAU

✓ Beiros



TAFLEN WAITH

✓ Gweithgaredd 2:
CVs y mae angen
eu gwella

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Rhannwch enghreifftiau o CVs sydd wedi cael eu paratoi ymlaen llaw, gan gynnwys y daflen waith 'CVs y mae angen eu gwella'.
2. Gofynnwch i'r dysgwyr fwrw golwg dros y rhain, gan eu hannog i edrych arnyn nhw'n feirniadol. Gofynnwch iddyn nhw dynnu sylw at yr hyn y mae angen ei wella, beth sy'n gweithio a beth ddylai gael ei ddileu'n gyfan gwbl. Gwnewch yn siŵr eu bod yn tynnu sylw at gamgymeriadau allweddol, fel fformatio gwael, manylion cyswllt anghyflawn, gwallau sillafu neu ddiffyg tystiolaeth.



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

YSGRIFENNU CV AR GYFER EICH SWYDD DDELFRYDOL

Gan fod y dysgwyr yn gwybod beth yw CV erbyn hyn, byddan nhw'n rhoi cynnig ar greu eu CV eu hunain, a fydd wedi'i deilwra i'w swydd ddelfrydol.



AMSER

40 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Beiros
- ✓ Cyfrifiadur gyda Microsoft Word



TAFLEN WAITH

- ✓ Gweithgaredd 3: Ysgrifennu fy CV



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Llunio CV sy'n tynnu sylw at eu sgiliau a'u profiad, a'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Rhowch enghreifftiau o CVs da i'r myfyrwyr, i ddangos iddyn nhw sut dylid fformatio CV er mwyn gwneud iddo edrych yn broffesiynol. Gallwch ddewis CVs o'r enghreifftiau sydd ar gael ar y gwefannau isod:

www.prospects.ac.uk/careers-advice/cvs-and-cover-letters/example-cvs

www.studentjob.co.uk/application-tips/cv-example

Esboniwch y dylai CV gynnwys gwahanol adrannau: manylion cyswllt, profiad gwaith, addysg, sgiliau allweddol a chyflawniadau, diddordebau a geirdaon. Gofynnwch i'r grŵp a ydyn nhw'n gwybod pa fath o wybodaeth y dylid ei chynnwys ym mhob adran.

MANYLION CYSWLLT

Dylent gynnwys eu henw llawn, eu cyfeiriad cartref, eu rhif ffôn symudol a'u cyfeiriad e-bost.

PROFIAD GWAITH

Dylent restru eu profiad gwaith, gan ddechrau gyda'r un mwyaf diweddar a gweithio'n ôl, a chynnwys manylion am eu prif gyfrifoldebau.

ADDYSG

Dylent restru a dyddio eu holl addysg flaenorol, gan gynnwys cymwysterau proffesiynol. Y rhai mwyaf diweddar ddylai gael eu nodi'n gyntaf.

SGILIAU ALLWEDDOL A CHYFLAWNIADAU

Yn yr adran yma dylid tynnu sylw at sgiliau allweddol, fel siarad iaith dramor, pecynnau TG maen nhw'n gallu eu defnyddio, ac ati.

DIDDORDEBAU

Dylent gynnwys gweithgareddau allgyrsiol, chwaraeon y maen nhw'n cymryd rhan ynddyn nhw, chwarae offeryn, ac ati.

GEIRDA

Does dim angen iddyn nhw enwi canolwyr ar y cam yma, ond mae'n syniad da meddwl am bwy allai roi geirda iddyn nhw – gallai fod yn athro neu'n gyflogwr blaenorol.



Prince's Trust


START
SOMETHING

2. Atgoffwch y dysgwyr am y swydd maen nhw wedi'i nodi yn y sesiwn flaenorol, 'Cynllunio gyrfa – Creu dyfodol llwyddiannus'. Yna dylent ddechrau llenwi'r tabl ar y daflen waith 'Ysgrifennu fy CV', a fydd yn dangos yr wybodaeth y mae angen iddyn nhw ei hychwanegu at eu CV. Wedyn fe ddylen nhw ofyn i'w cyd-ddysgwyr ddarllen drwy'r CV i weld a oes gwybodaeth ychwanegol y gellid ei chynnwys er mwyn gwneud i'r CV sefyll allan mwy.
3. Ar ôl gwneud hyn, gall y dysgwyr ei ddefnyddio i ddrafftio CV go iawn. Dywedwch wrthyn nhw am fynd amdani a dangos yr holl bethau anhygoel maen nhw wedi'u gwneud, a sicrhau'r cyflogwr y bydden nhw'n gallu gwneud y swydd. Byddai'r dysgwyr yn gallu gwneud hyn drwy ddefnyddio templed CV, neu drwy edrych ar enghreifftiau o CVs ar-lein. Ar ôl gorffen, gwnewch yn siŵr eu bod yn gwirio'r sillafu, y gramadeg a'r cynllun.

DEWISOL:

Gallai'r dysgwyr gyfnewid eu CV â'r person wrth eu hymyl, a gofyn a ydyn nhw'n gallu gweld unrhyw gamgymeriadau neu wybodaeth sydd ar goll.

Y SESIWN NESAF: LINKEDIN A FFURFLENNI CAIS



Prince's Trust

**START
SOMETHING**



Yn y gweithgaredd yma bydd y dysgwyr yn edrych ar LinkedIn, ac yn dod i ddeall pam mae'n adnodd pwysig wrth chwilio am swyddi a gwneud cais am swyddi. Gwnewch yn siŵr ei fod yn briodol i oedran eich grŵp.



AMSER

30 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyfrifiadur â mynediad i'r rhyngwyd



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Nodi dulliau gwahanol o wneud cais am swyddi

CAMAU'R GWEITHGAREDD

CYNGORDIOGELU

Dylai hwyluswyr holi rhieni/gwarcheidwaid y dysgwyr a ydyn nhw'n fodlon i'r dysgwyr greu proffil ar gyfryngau cymdeithasol, a llwytho llun i fyny.

Pwrpas y gweithgaredd yma yw helpu'r dysgwyr i greu presenoldeb ar-lein fel rhywun sy'n chwilio am swydd. Mae LinkedIn yn adnodd gwych i bobl sy'n chwilio am gyfle newydd.

1. Gofynnwch i'r dysgwyr fynd i www.linkedin.com a chreu cyfrif. Mae LinkedIn yn safle rhwydweithio proffesiynol, felly dylai'r dysgwyr ddefnyddio eu henw a'u manylion go iawn.
2. Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn gallu:
 - Defnyddio eu cyfeiriad e-bost i ddod o hyd i bobl maen nhw'n eu hadnabod ar LinkedIn
 - Dewis ychydig o ddiddordebau perthnasol (ac sy'n addas i fyd gwaith)
3. Dylech eu hannog i greu proffil gan ddefnyddio llun addas, a llenwi'r adrannau Profiad, Addysg, Sgiliau a Chrynodeb. Yn union fel CV, yr adrannau hyn fydd canolbwynt y proffil. Bydd LinkedIn yn eu hannog a'u harwain drwy'r camau.
4. Ar ôl dod i gysylltiad â rhywfaint o bobl, beth am weld a ydyn nhw'n gallu rhoi argymhellion neu gymeradwyaeth. Yn debyg iawn i gael geirda, bydd cael y rhain yn rhoi mwy o hygrededd i'w proffil.



Prince's Trust

START
SOMETHING

CYFLWYNIAD I FFURFLENNI CAIS >

Bydd y dysgwyr yn dod i ddeall pam y gallai cyflogwyr ddefnyddio ffurflenni cais, ac yn nodi gwahanol ffyrdd o'u llenwi.



AMSER

10-15 munud



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Nodi dulliau gwahanol o wneud cais am swyddi

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Mae ffurflenni cais yn ffordd arall o wneud cais am swydd. Esboniwch i'r grŵp fod sawl rheswm pam mae cyflogwyr yn defnyddio ffurflenni cais. Gofynnwch i'r dysgwyr a ydyn nhw'n gwybod am unrhyw resymau dros eu defnyddio. Dyma rai enghreifftiau:
 - Helpu i ddethol wrth gyflogi gweithwyr newydd
 - Sicrhau proses syml a safonol ar gyfer creu rhestr fer
 - Aseu a ydych chi'n addas ac yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd
 - Rhoi mwy o fanylion na CV
2. Gofynnwch i'r grŵp nodi gwahanol ffyrdd o lenwi ffurflenni cais, er enghraifft ffurflenni papur a ffurflenni ar-lein. Eglurwch y byddan nhw'n cael cais weithiau i gyflwyno eu CV hefyd pan fyddan nhw'n gwneud cais ar-lein.



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

LLENWI FFURFLEN GAIS >

Yn y gweithgaredd yma, bydd y myfyrwyr yn dysgu sut i lenwi ffurflen gais ar gyfer swydd sy'n cyfateb i'w sgiliau a'u diddordebau.



AMSER

60 munud
(wedi'i rannu'n ddwy sesiwn)



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyfrifiadur â mynediad i'r rhyngwyd



TAFLEN WAITH

- ✓ Gweithgaredd 4: Geiriau allweddol ar ffurflenni cais



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Llenwi ffurflen gais sy'n cyrraedd y safon briodol i gael ei chyflwyno
- ✓ Llunio llythyr eglurhaol ar gyfer swydd benodol

CAMAU'R GWETHGAREDD >

RHAN1

1. Rhannwch y daflen waith 'Geiriau allweddol ar ffurflenni cais' – mewn grwpiau bach, gofynnwch i'r dysgwyr baru'r diffiniadau cywir â'r prif ymadroddion a'r geiriau sydd i'w gweld yn aml ar ffurflenni cais. Esboniwch unrhyw dermau anghyfarwydd a'u cofnodi ar wal eiriau.
2. Gofynnwch i'r dysgwyr chwilio am ffurflen gais ar-lein ar gyfer swydd sy'n berthnasol i'w diddordebau a'r maes y bydden nhw'n hoffi gweithio ynddo. Gallai fod yn ffurflen gais ar gyfer swydd benodol, cwrs hyfforddi sy'n gysylltiedig â'r swydd honno, neu rôl wirfoddoli. Efallai y byddwch chi am ofyn iddyn nhw pa swydd maen nhw wedi'i dewis, a gwneud yn siŵr bod pob dysgwr yn deall yn iawn beth mae angen iddyn nhw ei wneud.
3. Esboniwch eu bod yn mynd i lenwi adrannau'r ffurflen gais, fel pe baent yn mynd i ymgeisio am y swydd. Gofynnwch iddyn nhw gopïo a gludo cwestiynau a rhannau allweddol y cais maen nhw wedi dod o hyd iddo, neu eu hysgrifennu ar ddarn o bapur. Byddan nhw'n mynd â'r rhain gartref gyda nhw, ac yn eu llenwi fel gwaith cartref.

RHAN2

4. Yn ystod y sesiwn nesaf, dylech eu hannog i brawf-ddarllen eu ffurflen gais sawl gwaith ar ôl ei llenwi, yn union fel pe baent yn mynd i'w chyflwyno. Rhannwch yr awgrymiadau defnyddiol yma ar gyfer prawf-ddarllen:
 - Darllen eich ffurflen gais yn uchel – byddwch yn darllen yn arafach ac yn fwy tebygol o weld gwallau
 - Prawf-ddarllen am yn ôl – dechreuwch ar ddiwedd y testun a darllen un frawddeg ar y tro. Bydd hyn yn eich helpu i ganolbwyntio ar chwilio am wallau yn hytrach na'r cynnwys, sy'n gyfarwydd iawn i chi.
 - Argraffu'r ffurflen gais – weithiau mae'n gallu bod yn anodd gweld gwallau ar y sgrin
 - Gofyn am help – gofynnwch i rywun arall brawf-ddarllen y ffurflen i chi. Mae bob amser yn help cael pâr newydd o lygaid ar rywbeth



5. Dywedwch y bydd angen iddyn nhw fel rheol lwytho eu CV i fyny fel rhan o broses ymgeisio ar-lein, felly mae'n bwysig bod eu CV yn edrych yn dda cyn iddyn nhw ddechrau gwneud hyn. Gall hefyd fod yn ddogfen ddefnyddiol i gyfeirio ati wrth lenwi'r cais.
6. Dylech eu hannog i fynd â'u cais gartref gyda nhw, a'i drafod gyda'u rhieni neu eu gwarcheidwad. Os yw'r swydd yn berthnasol iddyn nhw a'u bod yn dymuno gwneud cais, byddan nhw'n gallu cyflwyno'r cais.

DEWISOL:

Os yw'ch dysgwyr yn gweithio tuag at Lefel 2/Lefel 5 yn yr Alban o'r cymhwyster PDE, efallai y byddwch chi am ddefnyddio'r amser yma iddyn nhw greu llythyr eglurhaol i fynd gyda'r cais maen nhw wedi'i wneud. Esboniwch i'r dysgwyr fod llythyrau eglurhaol yn debyg i ddatganiadau personol, gan eu bod yn gyfleoedd i chi gyflwyno chi'ch hun a rhoi'ch manylion, eich profiad a'ch sgiliau ar wahân i'r cais neu'ch CV.

Pwysleisiwch fod llythyrau eglurhaol yn hirach na datganiadau personol – fel arfer 1 ochr A4 (yn aml iawn, mae cyflogwyr yn datgan pa mor hir maen nhw eisiau i'r llythyr eglurhaol fod ar gyfer y swydd maen nhw'n ei hysbysebu). Mae angen i lythyrau eglurhaol gynnwys y canlynol hefyd:

- ✓ Eich manylion cyswllt ar y top
- ✓ Y rôl benodol rydych chi'n gwneud cais amdani
- ✓ Cyfeiriad at y rheolwr penodi
- ✓ Disgrifiad byr o'r rhesymau pam rydych chi'n addas ar gyfer y rôl
- ✓ Eich profiad a'ch sgiliau perthnasol – mae'n dda egluro sut mae'ch profiad a'ch sgiliau chi'n bodloni rhannau penodol o'r disgrifiad swydd neu fanyleb y person, er mwyn dangos yn glir i'r cyflogwr eich bod chi'n addas ar gyfer y rôl
- ✓ Casgliad sy'n ailadrodd eich diddordeb ac yn dod i ben gyda gwahoddiad i weithredu
- ✓ Eich llofnod



DIRWYN I BEN

Gofynnwch i'r dysgwyr beth maen nhw wedi'i ddysgu yn ystod y sesiynau hyn. Sut maen nhw'n teimlo am hynny? Ydyn nhw'n teimlo'n fwy hyderus wrth ysgrifennu CV, ac ynghylch y gwahanol ffyrdd o wneud cais am swydd?



Prince's Trust

**START
SOMETHING**